

## Cyngor Cymuned Betws-y-Coed

### Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 9fed Fehefin 2014

Presennol - Gareth Wynne Cadeirydd, Gwawr Jones, Medwen Hughes, Jim Boughton, Janet Charlton, Elisabeth Roberts, Caerwyn Roberts, Clerc.

Ymddiheuriadau - Marion Bettenev, Gareth Parry, Karen Pugh, Michael Hughes.

Datgan diddordeb- Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

Cofnodion - Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 12fed Fai 2014.

Materion yn Codi :

#### [1] Yr Heddlu

Yn bresennol yn y cyfarfod roedd SCHG Phil Gales ac mewn trafodaeth ynglŷn â materion lleol esboniodd fel a ganlyn:

Pont-y-Pair

[a] Bod plant Ysgol Betws-y-Coed yn dylunio poster yn gofyn i bobl beidio neidio o'r bont.

[b] Bod Cyngor BS Conwy wedi cadarnhau y bydd erlyniad yn dilyn os i rywun anwybyddu'r Is Ddeddf.

[c] Dywedodd y Cyng. E Roberts bod y cyfarfod nesaf gyda'r heddlu ynghylch y bont i gael ei gynnal am 2.30 y prynhawn yng Ngwesty'r Royal Oak ar yr 20fed Fehefin 2014.

Cytunodd SCHG Phil Gales i wneud ymholiadau ynglŷn ar camerâu sydd wedi ei gosod yn ddiweddar ar briffordd yr A5

#### [1.1] Arwyddion/Poster

Croesawyd Mr Richard Thomas Swyddog Cynllunio APCE i'r cyfarfod a mynegwyd pryder iddo ynglŷn y cynnydd yn y nifer o arwyddion/posteri yn cael ei harddangos yn y pentref. Yn dilyn trafodaeth esboniodd Mr Thomas na fyddai APCE yn gweithredu, oddigerth i'r awdurdod dderbyn cwyn. Penderfynwyd ysgrifennu at y busnesau lle mae pryder am ei hysbysebion.

#### [1.2] Maes Parcio Pont-y-Pair/Consesiwn Parcio

Cyfeiriodd y clerch at y sylwadau diweddera oddiwrth Mr Andrew Wilkinson [Cyngor BS Conwy] yn cyfeirio at y posibilrwydd o docynnau consesiwn. Penderfynwyd peidio dilyn y mater ymhellach. Cadarnhaodd y Cyng. E Roberts bod y Cyngor Sir wedi cytuno i wneud gwaith atgyweirio a bod trwsio'r tyllau yn y maes parcio yn flaenoriaeth.

#### [1.3] Marchnata ar y Stryd

Nodwyd bod marchnata ar y stryd wedi ei wahardd trwy gydol y pentref.

#### [1.4] Toiledau Ffordd yr Orsaf

Dywedodd y Cyng. E Roberts bod y toiledau sydd wedi ei adnewyddu i gael ei hail agor am 10.00 y bore ar y 16eg Fehefin a bod croeso i bawb fod yn bresennol.

#### [1.5] Pont Droed Gorsaf Reilffordd Betws-y-Coed

Nodwyd ateb Howard Williams Jones [Trenau Arriva] ynghylch y cais am waith cynnal a chadw.

Y Brif Agenda

[1.6] Cynllun Hydro Trydan Rhaeadr Conwy

Croesawyd Ms Kate Woodgate a Mr Bill Langley o RWE Innogy y Du i'r cyfarfod ac amlinellwyd ganddynt y cynnig ar gyfer datblygu Hydro Trydan Rhaeadr Conwy. Nodwyd bod trefniadau ar gyfer "Diwrnod Agored" ar y 18fed Fehefin o 1.00 y.p. hyd i 7.00 y.h. yng nghaffi Rhaeadr y Graig Lwyd.

[1.7] Materion Cynllunio

Newidiadau i'r to ac estyniad i'r gegin. Bod Afon, Betws-y-Coed.  
Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r cais uchod.

[1.8] Materion Ariannol

[a] Cymeradwywyd y taliadau ar derbyniadau [a ddsbarthwyd] a wnaed yn ystod Mai 2014.  
[b] Y Rhaeadr Ewynnol - Nodwyd y ffigyrau [a ddsbarthwyd] ar gyfer cyfnodau cymharol i ddiwedd Mai 2014.

[1.9] Tai fforddiadwy

Cyfeiriodd y clerc at lythyr gan Ms Caroline Hughes yn mynegi pryder ynghylch y bwriad i adeiladu tai fforddiadwy ym Mhentref Du. Eglurodd y clerc ei fod eisoes wedi ateb Ms Hughes gyda manylion cyswllt Cymdeithas Tai Clwyd.

[2] Ymddiswyddiad Mr Michael Hughes

Cyfeiriodd y clerc at lythyr gan Mr Michael Hughes yn esbonio nad oedd yn anffodus yn medru parhau ymlaen yn aelod o'r Cyngor Cymuned, oherwydd ymrwymiad gwaith.  
Y clerc i drefnu trwy law Cyngor BS Conwy i hysbysebu'r swydd wag.

[2.1] Linellau Melyn gyferbyn a Gwestai'r Glan Aber ar Gwydr

Nodwyd bod yr Asiantaeth Briffyrdd yn trefnu gorchmynion traffig ar gyfer y lleoliad.

[2.1] Arwyddion Croeso Rhaeadr Ewynnol

Y clerc i wneud ymholiadau gyda Chynulliad Cymru ynglŷn â'r gost

[2.2] Pont-y-Mwynwyr

Gan nad i'w'r bont i'w gweld o briffordd yr A5, y clerc i wneud cais i gael torri tyfiant y dail.

[2.3] Goleuadau Bro Gethin

Rhodddwyd gwybodaeth i'r aelodau nad oedd y goleuadau yn dal ddim ymlaen. Y clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir i ddatgan siomedigaeth y Cyngor.

Cadeirydd \_\_\_\_\_